Gwin y gwan

Pwll o ole'n goleuo'r stryd
Fflach dur y gyllell yn codi cryd
Fflach werdd y llygaid yn addo hud
Ar nos Sadwrn
Colli'r cymylau am gwarter i un
Colli'r synhwyrau ar mandrax a gwin
Colli'r dymuniad i gario ymlaen
Ar nos Sadwrn.

Dilyn y gole i ganol y dre
Sbio trwy waelod y botel ar y lle
Cyfri' cefnogaeth fel gweddi yn daer
Ar nos Sadwrn
Cofio y cof a gladdwyd dan win
Adlewyrchiad mewn ffenest ar ben ei hun
Tafli y garreg i falu y gwir
Ar nos Sadwrn.

Gwin y Gwan yw'r unig gysur sy' gen i mwy n y
Gwin y gwan yw'r unig ffrind sy' angen arna'i mwy
Gwin y Gwan yw'r unig obaith i oleuo' myd
Gwin y Gwan fe ddaw a'r freuddwyd yn ôl I'm cwsg rhyw bryd

©Geraint Griffiths